

COFNODION CYNGOR CYMUNED CYFFYLLIOG A GYNHALIWDYD AR NOS  
FAWRTH 12FED O DACHWEDD 2019 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.30 O'R  
GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Arwel Jones (Cadeirydd), Mike Denman, Ian Hession, Brynle Lloyd, Iona Jones, Clwyd Thomas a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Siân Davies, Wyn Wilkinson, Dewi Roberts a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 10fed o Fedi 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn dal i edrych i mewn i'r materion ffyrdd yn y gymuned a chodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Cyngor.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,841.00.

B. Penderfynwyd talu'r canlynol:-

1. Harold Smith Archwiliwr Mewnol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £180.00.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2019 £400.00.

3. HMRC am PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2019 £100.00.

C. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth Glwb Bowlio Rhewl; tuag at gostau hiro'r Pafiliwn. Gadawyd y mater ar y bwrdd.

D. Derbyniwyd manylion "Symiau Cymudiedig Mannau Agored" oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.

6. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Tystysgrif Datblygu Gyfreithlon ar gyfer y defnydd arfaethedig o adeilad fel tŷ annedd gan un gofalwr a dau berson ifanc, yng nghyd fyw mewn un cartref lle darperir gofal i breswylwyr (Defnydd Dosbarth C3B) ym Mhant Glas Uchaf, Bontuchel.

Penderfynwyd gwrthod y cais gyda'r sylwadau canlynol:-

"The Llanynys Community Council considered the application for a Lawful Development Certificate in respect of Unit 4 Pant Glas Uchaf, Bontuchel and expressed concerned that the Planning Statement did not contain a community safety statement. Such a statement would have been required had the application been for planning permission, and the Council felt that this should also be included in respect of this submission given the concerns that had been expressed about incidents which had occurred at the premises previously. Given that it was now intended to extend the use of the premises it was agreed that Denbighshire County Council be requested to arrange for a community safety statement to be prepared by the applicant's agent so that this matter could be considered further having regard to the information that would be provided."

B. Trosi garej presennol ar gyfer llety domestig atodol yn The Three Sisters, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

## 7. GOHEBIAETH.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi estyniad i adeilad ciwbicl presennol yn Bachymbyd Fawr, Llanrhaeadr.
  2. Adleoli mynediad presennol i'r cae yn Haulfryn, Llanynys.
  3. Codi storfa ardd yn Stone Barn, Rhewl.
  4. Tynnu garej ddomestig a chodi estyniad unllaw'r gydag estyniad ar gyfer defnydd achlysurol gyda'r annedd bresennol (cynllun diwygiedig) yn Glanynys Bach, Llanynys.
- B. Mae'r cyfarfod nesaf Cyfeillion Ysbyty Rhuthun ar nos Fercher 13eg o Dachwedd 2019 yn Ysbyty Rhuthun am 7.30 o'r gloch.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol:-

- A: Dwr yn cynyddu ar y ffordd tuag at Plas Einws yn Rhewl.
- B. Dwr yn cynyddu ar y ffordd heibio'r Pump House yn Rhewl.
- C. Coed ar dir Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl yn cuddio'r Bont Afon Clywedog ar y A525.
- D. Mae'r coed ar ochr y ffordd yn Homewood Bound yn Rhewl eisiau eu torri.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 14eg o Ionawr 2020 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.30 o'r gloch.